

7. Cymorth a hyfforddiant i lywodraethwyr

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- y cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr, sut mae'n cael ei ariannu a sut mae cael gafael arno
- talu lwfansau ar gyfer treuliau
- hawl i amser i ffwrdd o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau llywodraethu.

Cefndir

1. Mae gan lywodraethwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i wella perfformiad ysgol ac mae'n ddyletswydd arnynt i hybu'r safonau uchaf o gyflawniad addysgol ar gyfer pob dysgwr. Felly, mae angen i lywodraethwyr fod yn wybodus er mwyn cyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau yn gydwobodol a chyfrannu'n effeithiol at agenda berfformiad yr ysgol.
2. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol (ALI) ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn i lywodraethwyr allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn am ddim i bob llywodraethwr unigol. Gall swyddogion cefnogi llywodraethwyr lleol ddarparu rhagor o wybodaeth ar yr hyfforddiant sydd ar gael. Yn amodol ar drefniadau lleol, mae'r rhan fwyaf o ALIau yn cynnig pecyn o hyfforddiant i ysgolion ar gyfer llywodraethwyr a chlercod.
3. Gellir hefyd darparu hyfforddiant ar ffurf sesiynau ar gyfer grwpiau o lywodraethwyr unigol, sesiynau ar gyfer cyrff llywodraethu unigol neu sesiynau ar gyfer clwstwr o gyrff llywodraethu. Yn ogystal, gall yr ALI ddarparu hyfforddiant ar-lein i lywodraethwyr.
4. Nid yw'r rhan fwyaf o hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr a chlercod yn orfodol, ond mae'n cael ei annog yn gryf er mwyn sicrhau bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth well o'u rôl ac o ystod eu cyfrifoldebau. Bydd hyn yn helpu'r llywodraethwyr unigol, a'r corff llywodraethu yn y pen draw, i fod yn fwy effeithiol. Mae angen hyfforddiant rheolaidd ar bob llywodraethwr, waeth pa mor brofiadol ydyw, er mwyn bod yn ymwybodol o newidiadau a diweddarau ei wybodaeth.

Hyfforddiant gorfodol ar gyfer llywodraethwyr

5. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau fel bod hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol ar faterion penodol. Cafodd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 eu gwneud at y diben hwn.

Maent yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr gwblhau'r hyfforddiant canlynol:

- Hyfforddiant cynefino
- Hyfforddiant i gadeiryddion
- Deall rôl data o ran hunanwerthuso a gwella ysgolion

6. Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu cynnwys yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer llywodraethwyr a chlercod er mwyn sicrhau cysondeb o ran safon yr

hyfforddiant a ddarperir ar draws Cymru. Mae penaethiaid wedi'u heithrio rhag gorfod cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, er y byddai'n cael ei ystyried yn arfer da gwahodd penaethiaid newydd i'r hyfforddiant.

Hyfforddiant cynefino gorfodol

7. Mae'r hyfforddiant cynefino yn canolbwyntio ar rôl y llywodraethwyr a chwmpas eu cyfrifoldebau ac yn rhoi amlinelliad bras o'r cyd-destun cyfreithiol y bydd llywodraethwyr yn gweithredu ynddo. Y nod yw rhoi i lywodraethwyr newydd yr anogaeth a'r hyder i allu chwarae rhan lawn a gweithredol ym musnes a thrafodaethau'r corff llywodraethu.

8. Bydd yn rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd newydd ei ethol, ei benodi neu ei ailbenodi gwblhau'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i gael ei benodi neu ei ethol. Bydd unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau hyfforddiant cynefino'r ALL neu'r hyfforddiant gorfodol, ac sydd wedi cael toriad o bum mlynedd yn olynol yn eu gwasanaeth, yn gorfod cwblhau'r hyfforddiant cynefino eto o fewn blwyddyn i gael eu penodi neu eu hethol.

9. Bydd unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ac a benodir neu a etholir am dymor pellach, ac nad yw wedi cael toriad o'i wasanaeth, wedi'i eithrio rhag gorfod cwblhau'r hyfforddiant cynefino gorfodol.

Deall rôl data o ran hunanwerthuso a gwella ysgolion

10. Bydd yr hyfforddiant hwn yn helpu cyrff llywodraethu i ddeall eu rôl allweddol wrth hunanwerthuso ysgol ar sail tystiolaeth, cynllunio gwelliant a monitro cynnydd, yn ogystal â dal y pennaeth ac uwch arweinwyr yn atebol am berfformiad ac effeithiolrwydd yr ysgol.

11. Rhaid i bob llywodraethwr a gaiff ei ethol neu ei benodi, gan gynnwys am gyfnod pellach, gwblhau'r hyfforddiant data o fewn blwyddyn i gael ei benodi neu ei ethol.

Hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion

12. Mae cadeirydd y corff llywodraethu yn hanfodol i sicrhau bod y corff llywodraethu'n mynd ati'n effeithiol i gefnogi a herio'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn ymdrechu'n barhaus i wella perfformiad. Mae'r hyfforddiant yn diffinio'n glir yr hyn a ddisgwyllir gan gadeirydd corff llywodraethu, gan gynnwys rhoi arweiniad clir wrth drefnu gwaith y corff llywodraethu a chanolbwyntio trafodaethau'r corff ar ei rôl strategol. Bydd hefyd yn fodd i wella sgiliau allweddol y cadeirydd gan gynnwys sgiliau dirprwyo da, gwaith tîm ac arweinyddiaeth, rheoli amser a hunanhyder.

13. Rhaid i bob cadeirydd a etholwyd am y tro cyntaf, unrhyw gadeirydd nad yw wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol na'r hyfforddiant i gadeiryddion a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, ac unrhyw gadeirydd a etholwyd ar ôl toriad perthnasol yn ei wasanaeth o bum mlynedd yn olynol, gwblhau'r hyfforddiant i gadeiryddion.

Atal ac anghymhwyso

14. Bydd llywodraethwyr nad ydynt yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol o fewn y cyfnod hyfforddi gofynnol yn cael eu hatal yn awtomatig am gyfnod o chwe mis. Os na fydd y llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwnnw o chwe mis, byddant

yn cael eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag parhau yn eu swydd.

Hyfforddiant gorfodol ar gyfer clercod

15. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau'n ymwneud ag amlinellu rôl clerccorff llywodraethu. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc i Gorff Llywodraethu) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau ddarparu ar gyfer eu hysgolion rywun addas i'w benodi'n glerc yn ôl y gofyn. Ar ôl derbyn cais am glerc bydd gan yr awdurdod lleol 16 wythnos i ddarparu rhywun addas. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob clerccorff gwblhau'r hyfforddiant gorfodol i glerc o fewn blwyddyn i'w penodiad.

16. Ni fydd rhaid i swyddogion cefnogi llywodraethwyr gwblhau'r hyfforddiant gorfodol, na'r clerccorff hynny sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol. Yn ogystal, mae unrhyw lywodraethwr sy'n gweithredu fel clerccorff mewn argyfwng, pan fydd y clerccorff a benodwyd yn absennol o'r cyfarfod, hefyd wedi'i eithrio rhag gorfod cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i glerc.

17. I fanteisio'n llawn ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i lywodraethwyr, dylai pob corff llywodraethu hunanwerthuso ei berfformiad yn rheolaidd, ystyried ei anghenion datblygu a nodi hyfforddiant ar gyfer y bwrdd llywodraethwyr a llywodraethwyr unigol i ddiwallu'r anghenion hynny.

18. Y gyllideb a ddirprwyir i'r ysgol yw prif ffynhonnell y cyllid ar gyfer hyfforddiant llywodraethwyr. Nid yw'r awdurdod lleol yn ei ddarparu am ddim. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gymeradwyo cyllideb unrhyw flwyddyn, a dylai sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei dyrannu o'i mewn i sicrhau bod anghenion datblygu'r corff llywodraethu yn cael eu bodloni.

Hyfforddiant a argymhellir

19. Yn ogystal â chynnwys gorfodol yr hyfforddiant sefydlu, argymhellir hyfforddiant pellach mwy manwl ar gyfer pob llywodraethwr ym maes cydraddoldeb, diogelu ac ymwybyddiaeth ieithyddol. Gall awdurdodau lleol hefyd ddarparu unrhyw hyfforddiant penodol y maent yn teimlo ei fod yn briodol i lywodraethwyr eu hardal.

Cydraddoldeb

20. Dylai fod gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu. Bydd hyn yn eu helpu i ddelio â chwynion, bwlio a materion eraill sy'n codi o ganlyniad i hiliaeth, rhagfarn ar sail rhyw, a phob math o aflonyddu.

21. Dylai cyrff llywodraethu hefyd geisio arwain eu hysgolion drwy esiamplau cadarnhaol o amrywiaeth a pharch at eraill, a herio achosion o drin dysgwyr a staff yr ysgol yn annheg mewn ffordd gyflym ac effeithiol.

Diogelu

22. Mae cadw dysgwyr yn ddiogel yn rhan o rôl y gymuned ysgol gyfan. Er yr argymhellir pennu llywodraethwr penodol i arwain ym maes diogelu, ac unigolyn arall i ofalu am holl faterion amddiffyn plant, dylai pob llywodraethwr dderbyn hyfforddiant ar sut i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Hyfforddiant o ran y Gymraeg

23. Dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol i lywodraethwyr mewn ysgolion dwy ffrwd. Dylai'r corff llywodraethu cyfan dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol er mwyn deall ei rwymedigaethau i'r ddau sector. Dylid darparu hyfforddiant hefyd i lywodraethwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddeall eu rhwymedigaethau o ran Campws Cymraeg.

24. Dylid cynnig hyfforddiant penodol i lywodraethwyr ar ôl llunio'r categorïau diwygiedig i ddiffinio cyfrwng darpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau bod y corff llywodraethu yn ymwybodol o gategori ieithyddol eu hysgol ac yn cefnogi nodau unrhyw ysgol a osodir yn y categorïau trosiannol.

Ffynonellau eraill o hyfforddiant a chyngor

25. Mae llu o gyrsiau ac adnoddau hyfforddi ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru, a fydd o ddefnydd i lywodraethwyr.

26. Mewn ysgolion sefydledig, gall y sefydliad perthnasol, sef corff esgobaethol yn aml, hefyd ddarparu hyfforddiant ar bynciau penodol sy'n berthnasol i ysgolion o'r fath.

27. Yn ogystal, mae sawl ffynhonnell annibynnol o gyngor a chymorth ar gyfer llywodraethwyr, a chan y trydydd sector, megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Stonewall a'r NSPCC. Wrth chwilio am wybodaeth ar-lein, argymhellir yn gryf bod llywodraethwyr yn sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir yn berthnasol i ddeddfwriaeth a rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru.

Amser i ffwrdd o'r gwaith

28. O dan adran 50 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, rhaid i gyflogwyr roi i weithwyr sy'n llywodraethwyr ysgol amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i'r gweithiwr a'r cyflogwr gytuno ar yr hyn sy'n 'amser rhesymol i ffwrdd'. Dyma rai o'r pwyntiau y dylent eu hystyried:

- faint o amser sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau llywodraethwyr
- a yw'r gweithiwr hefyd yn cael amser i ffwrdd o'i waith ar gyfer gweithgareddau eraill
- amgylchiadau busnes y cyflogwr
- effaith debygol absenoldeb y gweithiwr ar y busnes.

Talu am amser i ffwrdd

29. Gall cyflogwyr roi amser i ffwrdd gyda thâl, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Mae hyn yn beth i'w drafod rhwng y gweithiwr a'r cyflogwr.

Datrys anghytundebau

30. Os na all y gweithiwr a'r cyflogwr gytuno ar unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, gall y naill neu'r llall ofyn am gymorth ACAS a fydd yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau'n anffurfiol.

31. Efallai y bydd gan weithiwr y gwrthodwyd ei gais am amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel llywodraethwr sail i gwyno wrth dribiwnlys cyflogaeth.

Lwfansau am dreuliau

32. Mae Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn darparu ar gyfer talu lwfansau i lywodraethwyr, ac aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn llywodraethwyr.

33. Gall corff llywodraethu ysgol a gynhelir gyda chyllideb ddirprwyedig wneud taliadau ar ffurf lwfansau i'w aelodau.

34. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gytuno ar bolisi neu gynllun ar gyfer talu lwfansau o'r fath sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni all y cynllun wahaniaethu rhwng aelodau'r corff llywodraethu ac aelodau is-bwyllgorau neu gategoriâu gwahanol o lywodraethwyr.

35. Gellir talu costau teithio a chynhaliaeth ond ni all y gyfradd fod yn uwch na'r hyn a nodir gan ganllawiau Cyllid a Thollau EM ar dreuliau a budd-daliadau.

36. Gellir talu treuliau eraill ar ôl dangos derbynneb ar gyfradd y mae'r corff llywodraethu'n cytuno arni. Gellir ond talu llywodraethwr am wariant a ysgwyddwyd ganddo i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswydd fel llywodraethwr neu aelod is-bwyllgor y corff llywodraethu, fel ad-dalu costau am:

- drefniadau gofalu am berthynas dibynnol (gan gynnwys costau gofal plant neu warchod)
- cymorth ar gyfer cyfarpar clywedol llywodraethwyr
- cymorth ar gyfer llywodraethwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf (er enghraifft, cyfieithiadau)
- thaliadau ffôn, llungopïo, papur ysgrifennu, ac ati.

37. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, a dylai'r corff llywodraethu lunio cynllun yn pennu pa lwfansau y maent yn eu talu. Rhaid dangos treuliau teithio a chynhaliaeth yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Ni ellir talu lwfansau presenoldeb nac enillion a gollwyd.

38. Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu i ALI wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir heb gyllideb ddirprwyedig.

Y Gyfraith

[Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996](#), adrannau 50 a 51

[Deddf Addysg 2002](#) Rhan 3, Pennod 1, Adran 22

[Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr \(Cymru\) 2005](#) OS 2005/2915

[Mesur Addysg \(Cymru\) 2011](#)

[Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir \(Gofynion Hyfforddi ar gyfer](#)

[Llywodraethwyr\) \(Cymru\) 2013](#)

[Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir \(Clerc i Gorff Llywodraethu\) \(Cymru\) 2013](#)

Canllawiau

[Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion](#)

[Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru](#)

[Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr yng Nghymru](#)

[Hyfforddiant gorfodol ar gyfer llywodraethwyr a chlercod ysgolion: canllawiau](#)

[Cyfarfod â rhieni: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu](#)